# Cynllun Gwers Synhwyro'r Fferm

**Oedran Arfaethedig:** Cyfnod Sylfaen
**Maes Dysgu:** Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

NFU CYMRU
Fferm Wyddoniaeth

## Cysylltiadau Cwricwlwm:

**Ystod -** Fi fy hun a phethau byw eraill, Fi fy hun a phethau nad ydynt yn fyw
**Sgiliau –** archwilio ac arbrofi, meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny a gwrando ar yr atebion, gwneud arsylwadau a mesuriadau a chadw cofnodion, llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau, cyfleu arsylwadau a mesuriadau.

## Amcanion Dysgu:

**I fedru adnabod y 5 synnwyr**
**I fedru adnabod anifeiliaid a phlanhigion gwahanol**
**I ddisgrifio anifeiliaid gan ddefnyddio'r 5 synnwyr**

**Geirfa Allweddol:**
Synhwyro, Teimlo, Cyffwrdd, Arogli, Gwrando, Clywed, Sain, Tafod, Blas, Garw, Llyfn, Melys, Chwerw, Sur, Llysnafeddog, Brith, Ponciog, Lliwgar, Plaen.

## Cyflwyniad:

Gwyliwch y fideo 'Science Farm – Farm Senses' - Mae hwn ar gael ar www.nfu-cymru.org.uk

Pen, Ysgwyddau, Pen-glin, Traed – atgoffa'n hunain o holl rannau'r corff

Mae'r Ffermwr yn dweud... Pwyntiwch at y rhan o'ch corff sy'n arogli, pwyntiwch at y rhan o'ch corff sy'n clywed, pwyntiwch at y rhan o'ch corff sy'n teimlo ayyb.

## Prif Sesiwn:

Mae gan y llwybr fferm synhwyraidd delfrydol nifer o lecynnau darganfod (gweler rhai o'n syniadau am lecynnau darganfod)

Bydd y plant yn cylchdroi o amgylch y llecynnau darganfod mewn grwpiau bychain. Mae amserydd a chloch/chwiban/sain cerddorol yn ddefnyddiol er mwyn dynodi'r amser i symud ymlaen. Gellid 'staffio'r' llecynnau gyda cynorthwywyr hŷn CA2 (gellid hyd yn oed cael eu cymorth wrth ddylunio'r llecynnau – gweler syniadau ychwanegol)

Bydd y plant yn llenwi'r ffurflen gofnodi i gadw cofnod o'u hymweliad â phob llecyn. Gellir wneud hyn yn unigol, mewn grŵp neu gellir roddi'r atebion ar lafar i ysgrifennydd hŷn yn dibynnu ar lefel eu gallu.

Bydd offer syml fel chwyddwydrau, microsgopau a chlipfyrddau yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr ac yn galluogi iddynt gynnig atebion dyfnach pan ofynnir iddynt ddisgrifio'r hyn y maent yn ei weld.

## Sesiwn Grynhoi:

**Trafodaeth Ddosbarth –** Fy hoff arogl oedd __________ oherwydd________. Fy hoff flas oedd _______ oherwydd ei fod yn ___________ ayyb.

## Gweithgareddau Ymestynnol a syniadau ychwanegol:

- Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio yn dda iawn fel rhan o ymweliad â fferm leol. Rhannwch y gweithgaredd gyda'r ffermwr cyn y digwyddiad er mwyn adnabod llecynnau darganfod posib. Gallech ddangos y fideo o flaen llaw i'r dysgwyr medrus.

- Gadewch elfennau mwyaf gwydn eich llwybr synhwyraidd yn eu lle er mwyn i ddysgwyr ailymweld â phrofiadau synhwyraidd gwahanol. Gellir ddarparu cardiau geirfa neu brociau cof i ddisgrifio'r synhwyrau.

- Mae hwn yn gyfle ardderchog i ddysgwyr hŷn rannu profiadau gyda dysgwyr iau. Gallai disgyblion CA2 ddylunio llwybr synhwyraidd wedi selio ar eu hymweliad hwythau â fferm. Gallent recordio sain a fideo ei hunain, casglu deunyddiau a defnyddio sgiliau technoleg bwyd unwaith iddynt ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth.

NFU Cymru, Ty Amaeth, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd,
Powys, LD2 3TU
www.nfu-cymru.org.uk